

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>26 Tachwedd 2020</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Cyng. Hugh Evans/ Graham H Boase</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Graham H Boase, Cyfarwyddwr Corfforaethol</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Thema Adferiad Covid-19 Blaenoriaethau Corfforaethol</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. Cyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor yn sgil argyfwng Covid-19

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1. Fel y gall y Pwyllgor Craffu wneud sylw ar y dull arfaethedig.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Gan ystyried argyfwng Covid-19 mae fframwaith llywodraethu presennol y Cyngor yn parhau'n briodol ar gyfer asesu, monitro a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

4.1. Mae'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) a'r Cabinet wedi nodi nifer o Themâu Adferiad yn sgil yr Argyfwng Covid. Gweler Atodiad 1.

4.2. Mae templed safonol wedi'i ddefnyddio ar gyfer pob un o'r Themâu Adferiad. Mae'r adroddiad hwn ynglŷn â sut yr ydym yn adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol yn sgil Covid-19. Gweler y templed safonol wedi'i gwblhau yn Atodiad 2.

4.3. Ynglwm fel Atodiad 3 mae adroddiad drafft gan Brif Weithredwr y Cyngor o dan y teitl 'Covid-19 – 'Ffurf y Cyngor ar gyfer y Dyfodol'. Mae'r adroddiad drafft

hwn wedi'i ystyried gan yr UDRh ac yng nghyfarfod Briffio'r Cabinet, ac mae'n cael ei ystyried yn berthnasol ar gyfer y thema adferiad ar flaenoriaethau corfforaethol.

- 4.4. Gofynnir am sylwadau gan yr Aelodau ar y Thema Adferiad, Blaenoriaethau Corfforaethol a hefyd cymerwyd y cyfle i rannu adroddiad drafft y Prif Weithredwr ar Covid-19 – Ffurf y Cyngor ar gyfer y Dyfodol. Croesewir sylwadau ar yr adroddiad drafft hwn hefyd.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1. Mae'n adroddiad ar pa un a oes gennym brosesau priodol ar waith i adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol yn sgil Covid-19.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1. Nid oes yna oblygiadau cost o ganlyniad i'r adroddiad hwn ac nid oes yna argymhellion sy'n effeithio ar sut mae Gwasanaethau yn gweithredu ar hyn o bryd.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

- 7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

- 8.1. Mae'r adroddiad hwn wedi'i ystyried yn yr UDRh a chyfarfod Briffio'r Cabinet.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

- 9.1 Er bod yna oblygiadau cost i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y fframwaith llywodraethu ar gyfer asesu, monitro a chyflawni'r blaenoriaethau hynny ac felly nid oes yna oblygiadau ariannol uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yna drefniadau priodol ar waith ac ar y lefel honno mae'r adroddiad yn cael ei gefnogi a'i groesawu.

## **10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae Risgiau/Cyfleoedd yn cael eu hystyried yn yr adroddiad templed safonol ar gyfer Themâu Adferiad ynghlwm yn Atodiad 2.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol (2000).

11.2. Mae Adrannau 7.3 a 7.4 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu rôl y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad wrth graffu ar berfformiad y Cyngor a'i gefnogi i gyflawni ei amcanion.